Cletwr

Cwmni Cymunedol Cletwr

Llawlyfr staff a gwirfoddolwyr

Adran 1

Adran 1 – Cymryd rhan

Cynnwys

1. Croeso i Gletwr

2. *Cwmni Cymunedol Cletwr* gweledigaeth ac amcanion

3. Manylion cyswllt

4. Rheoli Cletwr

5. Gwirfoddolwyr

6. Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr

7. Ffurflen Wirfoddoli Cletwr

8. Cytundeb Gwirfoddoli

ADRAN 1

Cymryd rhan

1. Croeso i brosiect Cletwr

Mae gan wirfoddolwyr a staff ran allweddol i'w chwarae wrth wneud Cwmni Cletwr yn batrwm o lwyddiant cymunedol.

Cletwr yw'r siop a chaffi a berchenogir gan y gymuned sy'n rhan o brosiect Cwmni Cymunedol Cletwr. Mae hefyd yn ganolfan gymunedol ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau a chymorth cymunedol. Prosiect cyffrous yw hwn y gall holl aelodau cymuned Llangynfelyn a phobl eraill yn yr ardal ymwneud ag ef. Bydd gweithio â'r prosiect yn ffordd dda o ddod i nabod eich cymdogion a'r gymuned gyfan. Dyma her sydd hefyd yn hwyl a bydd ei lwyddiant yn destun clod enfawr i bawb yn y gymuned.

2. Amcanion a Gweledigaeth

Dywed erthyglau ein cwmni mai ein prif nod yw:

'...rhedeg menter gymdeithasol sy'n darparu siop gymunedol a chyfleusterau eraill er budd trigolion Llangynfelyn yn ogystal ag ymwelwyr â'r ardal."

Amcanion a Gweledigaeth

Mae gan wirfoddolwyr a staff ran allweddol i'w chwarae wrth wneud Cwmni Cletwr yn batrwm o lwyddiant cymunedol.

Ein gweledigaeth yw:

- Cynnig gwasanaeth arbennig i bobl leol ac ymwelwyr
- Bod â siop bentre sydd â stoc dda ac sy'n cael ei defnyddio'n helaeth a fydd yn gaffaeliad economaidd a chymdeithasol i'r ardal
- Gwerthu nwyddau pob dydd ond hefyd cynnyrch lleol
- Rhedeg y siop gyda chymorth gwirfoddolwyr
- Dod yn lle i bobl gwrdd â'i gilydd a chydweithio dros ein cymuned
- Darparu canolbwynt ar gyfer cymorth a gweithgareddau cymunedol
- Denu amrywiaeth eang o gwsmeriaid i'r caffi drwy serfio bwyd ffres o ansawdd da
- Sicrhau bod Cletwr yn fan croeso pwysig i Ogledd Ceredigion a Biosffer Dyfi. Bydd anrhegion, cardiau post, mapiau a gwaith celf lleol ar werth
- Gweithredu fel 'porth' i ymwelwyr â Cheredigion drwy ddarparu cyflwyniad i ddiwylliant y sir. Bydd yn fusnes â hunaniaeth Gymreig gref a bydd yn darparu gwybodaeth am yr hanes a'r dreftadaeth leol
- Sicrhau ein bod yn rhedeg busnes sydd â safonau amgylcheddol uchel

3. Manylion Cyswllt

Cletwr

Tre'r Ddol, Machynlleth, Powys, SY20 8PN

cletwr@cletwr.com 01970 832113 www.cletwr.com

I gysylltu â bwrdd cyfarwyddwyr Cletwr:

admin@cletwr.com

4. Rheoli Cletwr

Gwasanaeth cwsmeriaid

Mae'r rheolwr, y staff a'r gwirfoddolwyr yn sicrhau bod cwsmeriaid yn mwynhau gwasanaeth da. Gyda chymorth y staff a'r gwirfoddolwyr mae'r rheolwr yn:

- Sicrhau bod yr eiddo'n lân ac yn daclus bob amser
- Cynnig pob cymorth ymarferol posibl i gwsmeriaid
- Annog naws siriol a chroesawgar yn y siop a'r caffi
- Sicrhau bod y siop yn agored yn ystod yr holl oriau agor a hysbysebir
- Sicrhau bod yr holl arwyddion a gweithgarwch cyfathrebu'n ddwyieithog a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei meithrin

5. Gwirfoddolwyr

Ymrwymiad Dibynadwyaeth Rheoleidd-dra

- Mae gwirfoddolwyr yn cynorthwyo'r rheolwr/wyr gyda'r rhan fwyaf o'r tasgau sydd ynghlwm wrth redeg y siop a'r caffi..

- Disgwylir i wirfoddolwyr ddilyn cod cyfrinachedd mewn cysylltiad â'u cydweithwyr a chwsmeriaid

- Mae gwirfoddolwyr yn gweithio yn ôl rota sy'n gadael iddynt roi cymaint neu gyn lleied o'u hamser ag y maent am ei roi i wirfoddoli. Fodd bynnag, **dwy neu dair awr fydd hyd sifft unigol. Bydd yn hollbwysig i wirfoddolwyr gadw eu lle yn y rota**

- Bydd gwirfoddolwyr fel arfer yn gweithio **gydag un o reolwyr y siop ar y safle**

6. Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr

Fel arfer, bydd recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr yn dilyn y weithdrefn isod. Ni ddisgwylir i wirfoddolwyr wneud yr holl dasgau sy'n gysylltiedig â'r siop. Mae croeso i wirfoddolwyr sydd am gynnig gwneud tasgau penodol yn unig a all fod yn achlysurol yn hytrach nag yn rheolaidd, gall y rhain cynnwys yn y grŵp celf neu yn yr ardd, neu waith cynnal a chadw achlysurol.

.

Mae'r darpar wirfoddolwr yn lawrlwytho ac yn cwblhau ffurflen gais a geir ar www.cletwr.com neu yn y siop

Dychwelir y ffurflen i Gwmni Cletwr

Cyfarfod anffurfiol ag Aelod o'r Bwrdd sy'n:

- Cyflwyno'r Llawlyfr i Wirfoddolwyr
- Egluro strwythur a phrosesau'r cwmni
- Esbonio polisïau allweddol
- Esbonio'r broses hyfforddi/cynefino
- Esbonio system y rota
- Ateb unrhyw gwestiynau

Cyflwyniad i'r siop/caffi

Bydd y gwirfoddolwr:

- yn cael ei dywys o gwmpas y siop
- yn cael ei gyflwyno i reolwyr y siop a gwirfoddolwyr eraill

Bydd y rheolwyr/gwirfoddolwyr eraill yn esbonio:

- Sut mae'r siop yn cael ei rhedeg
- Gweithdrefnau sylfaenol
- Y rota

Trefnir amserau hyfforddi i'r dyfodol

Sesiwn hyfforddi 1

- Lle mae pethau'n cael eu cadw
- Hylendid
- Glanhau
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethu cwsmeriaid
- Gwirio a threfnu stoc

Cysgodi staff am sesiwn waith

Sesiwn hyfforddi 2

- Y til Epos
- Labelu stoc
- Archebu stoc
- Gweithio'r peiriant coffi
- Derbyn cyflenwadau

Cysgodi staff am sesiwn waith

Sesiwn hyfforddi 3

- Agor a chau'r siop
- Cyfathrebu ac adrodd

Cysgodi staff am sesiwn waith

7. Ffurflen Wirfoddoli Cletwr

Cletwr

Manylion y gwirfoddolwr

ENW:

CYFEIRIAD:

COD POST:

RHIF FFÔN ADREF:

RHIF FFÔN SYMUDOL:

CYFEIRIAD E-BOST:

DYDDIAD GENI:

CYFLYRAU MEDDYGOL PRESENNOL:

<u>MANYLION CYSWLLT MEWN ARGYFWNG</u>

ENW:

RHIF FFÔN:

O bryd i bryd byddwn yn defnyddio lluniau o'n gwirfoddolwyr ar gyfer cyhoeddusrwydd. Llofnodwch isod os gwelwch yn dda os yr ydych yn fodlon i ni ddefnyddio lluniau ohonoch am y pwrpas yma.

Llofnod _____

Nid wyf yn fodlon i Gletwr defnyddio lluniau ohonof

Llofnod _____

Datganiad diogelu data:

Bydd Cwmni Cymunedol Cletwr yn cadw eich manylion ar system cyfrifiaduron fel bod ni'n gallu cysylltu gyda chi ynglŷn â gweithgareddau Cwmni Cletwr.

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion tu allan i Gwmni Cletwr.

Pa fath o waith gwirfoddol fyddai gennych ddiddordeb ynddo:

Gweithio yn y siop ☐ **Gwaith caffi cyffredinol** ☐

Coginio yn y caffi ☐ **Help cyffredinol** ☐

Grŵp celf ☐ **Grŵp garddio** ☐

Arall (ysgrifennwch fanylion isod) ☐

Pa sgiliau allwch chi eu cynnig?

Oes gennych chi brofiad blaenorol o weithio mewn siop neu gaffi? OES/NAC OES

Os felly, pa fath o brofiad?

Ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn? YDW/NAC YDW

Os nad ydych, beth yw eich oedran?

(Os ydych o dan 16 oed mae'n rhaid i chi gael llythyr gan riant neu warcheidwad sy'n rhoi caniatâd i chi weithio yn y siop/caffi)

Pryd fyddech chi'n gallu gweithio yn y siop/caffi?

Dydd Llun	Bore	Prynhawn	Min nos
Dydd Mawrth	Bore	Prynhawn	Min nos
Dydd Mercher	Bore	Prynhawn	Min nos
Dydd Iau	Bore	Prynhawn	Min nos
Dydd Gwener	Bore	Prynhawn	Min nos
Dydd Sadwrn	Bore	Prynhawn	Min nos
Dydd Sul	Bore	Prynhawn	Min nos

Unrhyw wybodaeth ychwanegol?

Llofnod:

Dyddiad:

Cletwr

Tre'r Ddol, Machynlleth, Powys, SY20 8PN

cletwr@cletwr.com 01970 832113 www.cletwr.com

8. Cytundeb Gwirfoddolwyr

Defnyddir y math canlynol o gytundeb rhwng *Cwmni Cymunedol Cletwr* a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y Busnes Cymunedol. Diben y cytundeb yw egluro beth yw cyfrifoldebau, dyletswyddau a hawliau'r rheolwyr a'r gwirfoddolwyr.

Cytundeb Gwirfoddolwyr Cwmni Cymunedol Cletwr.

Mae hwn yn gytundeb rhwng Bwrdd Cyfarwyddwyr *Cwmni Cymunedol Cletwr* a'r gwirfoddolwr a enwir.

Enw'r Gwirfoddolwr

.....

Cyfeiriad

.....

.....

1. Mae *Cwmni Cymunedol Cletwr* yn derbyn yr uchod a enwir fel gwirfoddolwr a fydd yn gweithio yn y busnes cymunedol o'r enw Cletwr.

2. Bydd *Cwmni Cymunedol Cletwr* yn disgwyl bod ..... wedi darllen y wybodaeth yn y llawlyfr ac wedi derbyn y weledigaeth a'r egwyddorion y mae'r busnes yn seiliedig arnynt.

3. Mae gwirfoddolwyr yn gyfrifol yn uniongyrchol l i'r rheolwyr siop/caffi cyflogedig o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, bydd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr yr awdurdod terfynol mewn unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anghydfod, pryder neu weithdrefn.

4. Bydd gwirfoddolwyr yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol gan y rheolwyr siop/caffi sy'n rhesymol iddynt wneud eu gwaith yn effeithlon ac yn ddiogel.

5. Bydd gwirfoddolwyr yn ymrwymo i weithio yn unol â rota a fydd yn cael ei threfnu gan Reolwyr Cletwr. Bydd y sifftiau gwaith a'r math o waith yn cael eu diffinio cyn dechrau ar y gwaith ond gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd mewn ymgynghoriad â'r gwirfoddolwr/gwirfoddolwyr.

6. Pryd yn gweithio yn y siop/caffi bydd gwirfoddolwyr yn cadw at y polisïau, y canllawiau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y llawlyfr.

7. Bydd yn ofynnol i wirfoddolwyr roi digon o rybudd os na allant gymryd eu lle yn y rota neu os ydynt am dynnu'n ôl o wirfoddoli. Bydd hyn yn cynnwys cyfnodau pan fydd gwirfoddolwr yn cael gwyliau neu gyfnod i ffwrdd.

8. Os bydd argyfwng yn codi ac na fydd gwirfoddolwr yn gallu gwneud ei shifft ar fyr rybudd, bydd yn cysylltu ag un o'r tîm rheoli ar unwaith.

RHEOLWYR

1. Bydd rheolwyr y siop/caffi yn gyfrifol o ddydd i ddydd am weld bod gwirfoddolwr yn hapus gyda'i waith.

2. Cynhelir adolygiadau tîm cyfnodol lle bydd rheolwyr y siop/caffi yn cyfarfod â'r tîm o wirfoddolwyr i drafod unrhyw faterion ac i adolygu'r busnes.

3. Bydd y Rheolwr Busnes yn gyfrifol am adrodd ar y busnes i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o sut mae'r staff gwirfoddol yn gweithredu, ac i drafod unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud.

4. Bydd rheolwyr ar bob lefel yn gyfrifol am sicrhau na ofynnir i unrhyw wirfoddolwr wneud unrhyw dasg nad ydynt yn teimlo y gallant wneud neu nad ydynt wedi'u hyfforddi'n ddigonol i wneud hynny.

5. Bydd staff y siop/caffi yn sicrhau bod rota'r gwirfoddolwyr yn gweithio'n effeithlon a bod gwirfoddolwyr yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

CYTUNDEB

Rwy'n derbyn y telerau a nodir uchod.

Llofnodwyd ar ran *Cwmni Cymunedol Cletwr:*

..... Dyddiad .....

Llofnodwyd gan y gwirfoddolwr:

..... Dyddiad .....